**<u>Y Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-04-99(p.2)</u>**

**Dyddiad:** 26 Gorffennaf 1999

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: SUT I FYND ATI I YSTYRIED DOGFENNAU YMGYNGHORI**

## AMCAN

1. Mae'r papur hwn yn rhoi peth gwybodaeth gefndir i'r Pwyllgor am fynd ati i ystyried dogfennau ymgynghori fel y'u disgrifir yn yr agenda:

(i) cytuno ar sail ystyriaeth y Pwyllgor o'r dogfennau (paragraff 2);

(ii) ystyried y trefniadau arfaethedig ar gyfer ymgynghori, ar y cyd â'r pwyllgorau rhanbarth, ar y dogfennau rhaglen (paragraffau 3 a 4 ac Atodiad 1);

(iii) nodi'r dyddiadau pan fydd pwyllgorau eraill yn ystyried y dogfennau (Atodiad 1);

(iv) nodi'r dyddiadau pan fydd y Pwyllgor yn gallu ystyried y dogfennau ymhellach a llunio ei gyngor i'r Ysgrifennydd Cynulliad (Atodiad 1);

(v) ystyried pa arbenigedd neu wybodaeth bellach y mae ar y pwyllgor eu hangen i'w helpu i wneud y tasgau a ddisgrifir isod. (paragraff 5)

## CEFNDIR

2. Yn ei gyfarfod diwethaf, trafododd y Pwyllgor sut yr oedd am fwrw ymlaen ag ystyried dogfennau ymgynghori. Rwyf yn awgrymu bod y Pwyllgor yn ymgymryd â'r tasgau canlynol rhwng nawr a Hydref 19, sef y dyddiad pan fydd yn rhaid i'r NDS a'r SPD gael eu cyflwyno i'r Cynulliad llawn:

(i) cytuno ar yr amcanion strategol cyffredinol;

(ii) archwilio'r mesurau a gynigir yn y dogfennau a bod yn fodlon eu bod yn realistig ac y byddant yn effeithiol;

(iii) blaenoriaethu a chytuno ar dargedau priodol;

(iv) datblygu proffil gwario ar gyfer y cyfnod ariannu;

(v) sicrhau bod materion trawsbynciol yn cael eu hintergreiddio’n effeithiol;

(vi) ystyried y dewisiadau o ran gweithredu a gwneud argymhellion

**Ymgynghori**

3. Mae’r Pwyllgor yn gytûn y dylid gadael i bartneriaid y Tasglu ymgynghori â’u sectorau, ond bod angen i’r Pwyllgor ystyried sylwadau ar y rhaglenni ar y cyfan, sylwadau o’r rhanbarthau, a sylwadau y rhai sy’n brofiadol o ran gweithredu a gwerthuso rhaglenni o’r fath.

4. Mae Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor wedi bod wrthi’n sicrhau bod yr amryw bwyllgorau pwnc a rhanbarth yn ystyried y dogfennau hyn mewn ffordd sydd wedi’i strwythuro ac sy’n gydlynol. Ceir drafft o’r amserlen yn Atodiad 1. Croesawir sylwadau’r Pwyllgor yngln â hyn.

5. Mae angen i’r Pwyllgor ystyried pa gyrff lleol/rhanbarthol yr hoffai eu gwahodd i’r cyfarfodydd rhanbarthol. Gwahoddir y cyhoedd i fynychu’r cyfarfodydd ac i gyfrannu.

Cadeirydd

Y Pwyllgor Datblygu Economaidd

Gorffennaf 1999

Atodiad 1

<u>15 Medi</u> Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd

Ystyried materion trawsbynciol ar gynaliadwyedd.

(yn ogystal â’r WDA, Cyllidebau ac ETAG yn fwy cyffredinol).

<u>29 Medi</u> Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd

Ystyried:

cyfle cyfartal (gobeithio gyda Rona Fitzgerald sy'n gweithio i'r Ganolfan Polisi Genedlaethol ym Mhrifysgol Ystrad Clud ac sy'n gwneud astudiaeth genedlaethol o'r maes penodol hwn.);

papur ar dargedau (y fethodoleg o'u creu, y posibilrwydd o'u hisrannu yn ofodol, pa mor gyraeddadwy ydynt, etc.);

sut i ddosrannu adnoddau rhwng blaenoriaethau a mesurau a'r proffil gwario.

<u>Cyfarfodydd ar y cyd â phwyllgorau rhanbarth:</u>

y de ddwyrain (Abertawe) 13 Medi

y canolbarth 17 Medi

y de orllewin 17 Medi

y gogledd (Y Rhyl, dyweder) 20 Medi (dyddiad am y tro)

Bwriad y cyfarfodydd hyn fyddai sicrhau ymateb eang. Byddai'r pwyllgorau'n gwahodd cyrff i fod yn bresennol ac annog y cyhoedd i ddod i leisio'u barn. (Gellid defnyddio cyflwyniad safonol i hyrwyddo'r ddadl)

<u>Ystyriaeth o'r dogfennau gan bwyllgorau pwnc eraill</u>

<u>15 Medi</u> Y Pwyllgor Amaethyddiaeth

<u>16 Medi</u> Y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 Oed (cyfarfod arbennig)

<u>22 Medi (o bosibl)</u> Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Ystyriodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol y dogfennau ar 21 Gorffennaf.

<u>4 Hydref</u> Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd

Cymryd tystiolaeth oddi wrth y Tasglu ar y dogfennau diwygiedig ac ar weithredu.

(Byddai rhag-gyfarfod yn fuddiol er mwyn i’r Pwyllgor baratoi ar gyfer y sesiwn tystiolaeth.)

13 Hydref Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd

Cytuno ar safbwynt terfynol y Pwyllgor ar y dogfennau yn sgîl y trafodaethau a’r ymgynghori a fu a sylwadau’r pwyllgorau eraill.

19 Hydref Cyfarfod Llawn y Cynulliad i fabwysiadu’r dogfennau cyn iddynt gael eu cyflwyno i Frwsel (1 Tachwedd yw’r dyddiad terfynol).

**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-04-99(p.2)**

**Dyddiad:** 26 Gorffennaf 1999

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: SUT I FYND ATI I YSTYRIED DOGFENNAU YMGYNGHORI**

**AMCAN**

1. Mae’r papur hwn yn rhoi peth gwybodaeth gefndir i’r Pwyllgor am fynd ati i ystyried dogfennau ymgynghori fel y’u disgrifir yn yr agenda:

(i) cytuno ar sail ystyriaeth y Pwyllgor o’r dogfennau (paragraff 2);

(ii) ystyried y trefniadau arfaethedig ar gyfer ymgynghori, ar y cyd â’r pwyllgorau rhanbarth, ar y dogfennau rhaglen (paragraffau 3 a 4 ac Atodiad 1);

(iii) nodi’r dyddiadau pan fydd pwyllgorau eraill yn ystyried y dogfennau (Atodiad 1);

(iv) nodi’r dyddiadau pan fydd y Pwyllgor yn gallu ystyried y dogfennau ymhellach a llunio ei gyngor i’r Ysgrifennydd Cynulliad (Atodiad 1);

(v) ystyried pa arbenigedd neu wybodaeth bellach y mae ar y pwyllgor eu hangen i’w helpu i wneud y tasgau a ddisgrifir isod. (paragraff 5)

**CEFNDIR**

2. Yn ei gyfarfod diwethaf, trafododd y Pwyllgor sut yr oedd am fwrw ymlaen ag ystyried dogfennau ymgynghori. Rwyf yn awgrymu bod y Pwyllgor yn ymgymryd â'r tasgau canlynol rhwng nawr a Hydref 19, sef y dyddiad pan fydd yn rhaid i'r NDS a'r SPD gael eu cyflwyno i'r Cynulliad llawn:

(i) cytuno ar yr amcanion strategol cyffredinol;

(ii) archwilio'r mesurau a gynigir yn y dogfennau a bod yn fodlon eu bod yn realistig ac y byddant yn effeithiol;

(iii) blaenoriaethu a chytuno ar dargedau priodol;

(iv) datblygu proffil gwario ar gyfer y cyfnod ariannu;

(v) sicrhau bod materion trawsbynciol yn cael eu hintergreiddio'n effeithiol;

(vi) ystyried y dewisiadau o ran gweithredu a gwneud argymhellion

**Ymgynghori**

3. Mae'r Pwyllgor yn gytûn y dylid gadael i bartneriaid y Tasglu ymgynghori â'u sectorau, ond bod angen i'r Pwyllgor ystyried sylwadau ar y rhaglenni ar y cyfan, sylwadau o'r rhanbarthau, a sylwadau y rhai sy'n brofiadol o ran gweithredu a gwerthuso rhaglenni o'r fath.

4. Mae Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor wedi bod wrthi'n sicrhau bod yr amryw bwyllgorau pwnc a rhanbarth yn ystyried y dogfennau hyn mewn ffordd sydd wedi'i strwythuro ac sy'n gydlynol. Ceir drafft o'r amserlen yn Atodiad 1. Croesawir sylwadau'r Pwyllgor yngln â hyn.

5. Mae angen i'r Pwyllgor ystyried pa gyrff lleol/rhanbarthol yr hoffai eu gwahodd i'r cyfarfodydd rhanbarthol. Gwahoddir y cyhoedd i fynychu'r cyfarfodydd ac i gyfrannu.

Cadeirydd

Y Pwyllgor Datblygu Economaidd

Gorffennaf 1999

Atodiad 1

<u>15 Medi</u> Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd

Ystyried materion trawsbynciol ar gynaliadwyedd.

(yn ogystal â’r WDA, Cyllidebau ac ETAG yn fwy cyffredinol).

<u>29 Medi</u> Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd

Ystyried:

cyfle cyfartal (gobeithio gyda Rona Fitzgerald sy’n gweithio i’r Ganolfan Polisi Genedlaethol ym Mhrifysgol Ystrad Clud ac sy’n gwneud astudiaeth genedlaethol o’r maes penodol hwn.);

papur ar dargedau (y fethodoleg o’u creu, y posibilrwydd o’u hisrannu yn ofodol, pa mor gyraeddadwy ydynt, etc.);

sut i ddosrannu adnoddau rhwng blaenoriaethau a mesurau a’r proffil gwario.

<u>Cyfarfodydd ar y cyd â phwyllgorau rhanbarth:</u>

y de ddwyrain (Abertawe) 13 Medi

y canolbarth 17 Medi

y de orllewin 17 Medi

y gogledd (Y Rhyl, dyweder) 20 Medi (dyddiad am y tro)

Bwriad y cyfarfodydd hyn fyddai sicrhau ymateb eang. Byddai’r pwyllgorau’n gwahodd cyrff i fod yn bresennol ac annog y cyhoedd i ddod i leisio’u barn. (Gellid defnyddio cyflwyniad safonol i hyrwyddo’r ddadl)

<u>Ystyriaeth o’r dogfennau gan bwyllgorau pwnc eraill</u>

<u>15 Medi</u> Y Pwyllgor Amaethyddiaeth

16 Medi Y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 Oed (cyfarfod arbennig)

22 Medi (o bosibl) Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Ystyriodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol y dogfennau ar 21 Gorffennaf.

4 Hydref Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd

Cymryd tystiolaeth oddi wrth y Tasglu ar y dogfennau diwygiedig ac ar weithredu.

(Byddai rhag-gyfarfod yn fuddiol er mwyn i'r Pwyllgor baratoi ar gyfer y sesiwn tystiolaeth.)

13 Hydref Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd

Cytuno ar safbwynt terfynol y Pwyllgor ar y dogfennau yn sgîl y trafodaethau a'r ymgynghori a fu a sylwadau'r pwyllgorau eraill.

19 Hydref Cyfarfod Llawn y Cynulliad i fabwysiadu'r dogfennau cyn iddynt gael eu cyflwyno i Frwsel (1 Tachwedd yw'r dyddiad terfynol).